OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2011 Rhif 1876 (Cy. 204)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Y Gerbytffordd tua'r Gorllewin rhwng Cyffordd 23 a Chyffordd 20, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Cyfyngiad a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2011

Gwnaed	*27 Gorffennaf 2011*
Yn dod i rym	*8 Awst 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Caer - Bangor (yr A55) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd") wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig, ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd, ei wahardd neu ei ganiatáu, oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 8 Awst 2011 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Y Gerbytffordd tua'r Gorllewin rhwng Cyffordd 23 a Chyffordd 20, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Cyfyngiad a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2011.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod sy'n dechrau am 18:30 o'r gloch ar 8 Awst 2011 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro yn cael eu symud oddi yno'n barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" *("the lengths of the trunk road")* yw'r darnau hynny o gefnffordd yr A55

rhwng Llanddulas a Bae Colwyn, ym Mwrdeistref Sirol Conwy, a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 10, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei yrru ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 10, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

5. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 10, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd sy'n 3.25 metr ei led neu'n lletach na hynny, fynd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

6. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 10, mae'r llain galed gyfagos at brif gerbytffordd tua'r gorllewin y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 yn cael ei rhoi ar gael i'w defnyddio fel lôn draffig.

7. Mae darpariaethau Rheoliad 13, paragraffau (1) a (2) o Reoliadau Ffyrdd Arbennig (Llanddulas i Fae Colwyn) 1984**(3)** wedi eu hatal i'r graddau y maent yn gymwys i'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn yn ystod yr adegau hynny y bydd y cyfyngiad a bennir yn erthygl 4 yn weithredol.

8. Mae darpariaethau Rheoliad 13(1) a (2) o Reoliadau Ffyrdd Arbennig (Bae Colwyn i Lanconwy) 1985**(4)** wedi eu hatal mewn perthynas â'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn yn ystod yr adegau hynny y bydd y cyfyngiad a bennir yn erthygl 4 yn weithredol.

9. Mae darpariaethau Rheoliad 7 o Reoliadau Ffyrdd Arbennig (Llanddulas i Fae Colwyn) 1984 a Rheoliadau Ffyrdd Arbennig (Bae Colwyn i Lanconwy) 1985 wedi eu hatal i'r graddau y maent yn gymwys i'r llain galed sy'n cyffinio â'r darn o brif gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn, a thrwy hyn, cyfarwyddir y traffig i ddefnyddio'r llain galed a bennir.

10. Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5, 6, 7, 8 a 9 yn gymwys ond ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiad, y gwaharddiadau a'r caniatâd y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

11. Bydd y Gorchymyn hwn yn parhau am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 27 Gorffennaf 2011

G R MORGAN
Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilwaith
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
(3) O.S. 1984/1719
(4) O.S. 1985/824

YR ATODLENNI

ATODLEN 1
Gwahardd pob cerbyd

1. Hyd y cyfan o'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 21 (Bae Colwyn).

2. Hyd y cyfan o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 22 (Hen Golwyn).

3. Hyd y cyfan o'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 22 (Hen Golwyn).

ATODLEN 2
Gwahardd cerbydau dros 3.25 metr eu lled a therfyn cyflymder 40 mya

Y darn hwnnw o brif gerbytffordd tua gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt Cyffordd 23 (Llanddulas) i ddiwedd y terfyn cyflymder parhaol 50 mya i'r gorllewin o Gyffordd 20 (Bae Colwyn/ Llandrillo-yn-Rhos), gan gynnwys yr holl ffyrdd ymuno ac ymadael tua’r gorllewin ar hyd y darn hwn, ac eithrio'r rhai hynny a bennir yn Atodlen 1.